Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

75
1934•2009

Profiad gwirfoddoli

– cynhadledd ar gyfer rheolwyr gwirfoddolwyr yng Nghymru

24 Medi, Stadiwm Liberty, Abertawe

Mae Cymru bob amser wedi elwa'n aruthrol o gyfraniadau ymroddedig gwirfoddolwyr ac mae yma draddodiad gwirfoddoli cadarn.

Mae gwirfoddoli yn broses ddwy ffordd sy'n rhoi budd i fudiadau ac i'r gwirfoddolwyr eu hunain. Bydd y gynhadledd hon yn canolbwyntio ar brofiad gwirfoddolwyr, a bydd pedwar siaradwr gwadd yn rhannu eu straeon personol am wirfoddoli.

Drwy gyfrwng cyflwyniadau, sesiynau gweithdai a thrafodaeth banel, ceir cyfleoedd i bwyso a mesur ffyrdd y gall pobl sy'n gyfrifol am gynllunio neu reoli rhaglenni gwirfoddoli eu defnyddio i sicrhau profiadau cadarnhaol ac ystyrlon i'w gwirfoddolwyr.

Ymunwch â'r digwyddiad arbennig hwn ar gyfer rheolwyr gwirfoddolwyr a:

- chlywed am wirfoddolwyr o'r gorffennol sydd wedi gadael eu hôl ar y sector gwirfoddol yng Nghymru
- clywed oddi wrth wirfoddolwyr am eu profiadau, yng Nghymru a thramor
- trafod rôl hyfforddiant ac achrediad, neu gymhellion a gwobrwyon i wella profiad gwirfoddolwyr
- canfod sut y gall gwirfoddoli wella mynediad i waith
- canfod sut y gall siwrneiau personol gwirfoddolwyr gael eu monitro a'u gwerthuso
- clywed beth y mae'r arolwg diweddaraf o wirfoddoli yng Nghymru yn ei ddweud wrthym am brofiadau gwirfoddolwyr yn 2009

Nodau'r gynhadledd

Nod y gynhadledd yw:

- dathlu ehangder y profiad gwirfoddoli a'r cyfraniad a wna i fywyd cymunedol yng Nghymru
- cynyddu'r ddealltwriaeth a'r ymrwymiad i sicrhau profiadau gwirfoddoli cadarnhaol sy'n wobrwyol i'r ddwy ochr

Y gynulleidfa darged

Bydd y gynhadledd o ddiddordeb penodol i:

- **reolwyr gwirfoddolwyr**
- **gwirfoddolwyr a'r rheini sy'n gweithio mewn mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr sydd â diddordeb cyffredinol yn natblygiad a rheolaeth rhaglenni i wirfoddolwyr**
- **y rheini sy'n gweithio mewn mudiadau seilwaith gwirfoddolwyr megis canolfannau gwirfoddolwyr**

FE'CH CYNGHORIR I ARCHEBU'CH LLE'N GYNNAR!

RHAGLEN

10.00 Cofrestriadau, te a choffi, arddangosfeydd

10.30 Croeso a sylwadau agoriadol
Tim Day. Cyfarwyddwr Gwirfoddoli a Pholisi, WCVA

10.40 Gwirfoddoli Cymru: paratoi'r llwyfan
Fiona Liddell, Cydgysylltydd Gwirfoddoli, WCVA

10.55 Safbwyntiau gwirfoddolwyr:

A. **Angela James** – roedd yn un o dri o wirfoddolwyr a sefydlodd Cynllun Mentora'r Bont [Bridge Mentoring Scheme]. Yn awr, mae deg o staff cyflogedig a 50 o wirfoddolwyr hyfforddedig yn gysylltiedig â'r cynllun.

B. **Lucy Bower** – bu'n gwirfoddoli gyda grŵp o bobl ifanc o bob cwr o'r DU yng ngogledd yr India, drwy gyfrwng rhaglen Platfform 2 Cymorth Cristnogol.

C. **Mel Morgan** – mae hi ei hun wedi dod o'r system ofal, ac mae'n darparu cymorth gan gymheiriaid i adawyr gofal ifanc drwy Gynllun Gwirfoddoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol, CGG Castell-nedd Port Talbot.

D. **David Howells** – mae'n annog pobl hŷn i wirfoddoli drwy'r Rhaglen Wirfoddoli i Bobl Hŷn sydd wedi Ymddeol (RSVP) ac mae'n codi arian yn ddiflino i ysgol yn Ghana.

11.55 Gweithdai:

1. **Cymhellion a gwobrwyon**
   Leah Doherty, WCVA
2. **Profiad dysgu – gwirfoddoli ac achredu**
   Rob Brierley, Rheolwr Rhaglenni Achrededig, Ieuenctid Cymru
3. **Safbwyntiau gwirfoddolwyr: cyfle i glywed rhagor** Lucy Bower a David Howells

13.00 Cinio

14.00 Gweithdai:

4. **Gwirfoddoli a mynediad i waith**
   Karen Foley a Wendy Marshall, VAMT
5. **Mesur profiad gwirfoddolwyr**
   Sharon Northall, Merthyr Tudful Ddiogelach
6. **Safbwyntiau gwirfoddolwyr: cyfle i glywed rhagor** Julie Bush Rheolwr Gwirfoddoli a Secondio, Llywodraeth y Cynulliad a Angela James a Mel Morgan

15.00 Gwirfoddoli yng Nghymru 2009: canfyddiadau o arolwg o wirfoddolwyr a sefydliadau gwirfoddolwyr
Bryan Collis, Uwch Swyddog Ymchwil WCVA

15.20 Trafodaeth banel: sicrhau profiadau cadarnhaol i wirfoddolwyr

15.50 Diolchiadau a sylwadau i gloi

SESIYNAU GWEITHDAI

Gofynnir i'r cynadleddwyr ddewis dau weithdy:

Un o blith 1, 2, 3 (gweithdai'r bore) ac

Un o blith 4, 5, 6 (gweithdai'r prynhawn)

1. Cymhellion a gwobrwyon: defnyddio a chamddefnyddio 'mân fanteision' ar gyfer gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddoli yn cael ei ystyried fel budd dwy ffordd lle mae'r gwirfoddolwr ar ei ennill yn ogystal ag yn rhoi rhywbeth o werth. A yw 'pethau am ddim', 'mân fanteision' ac arwyddion eraill o gydnabyddiaeth neu wobrwyon yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i brofiad gwirfoddolwyr? I ba raddau y dylid eu defnyddio i ddenu gwirfoddolwyr? Ar ba bwynt y maent yn mynd yn amhriodol neu'n anfoesol hyd yn oed?

Bydd y gweithdy yn cyflwyno esiamplau o astudiaethau achos i sbarduno'r ddadl am yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn sydd ddim.

2. Profiad dysgu: gwirfoddoli a rhaglenni achrededig

Mae llawer o unigolion yn cael eu denu i wirfoddoli oherwydd y sgiliau a'r profiad ymarferol y byddant yn eu cael. Mae'r rhain yn aml yn cael eu gwella gan yr hyfforddiant a ddarperir i baratoi gwirfoddolwyr ar gyfer eu rôl.

Bydd y gweithdy hwn yn cyflwyno amrywiaeth o raglenni achrededig sydd ar gael i wirfoddolwyr hŷn ac ifanc. Bydd yn ystyried beth yw rôl a gwerth dysgu achrededig i wella profiad gwirfoddolwyr a beth yw'r costau, y risgiau a'r manteision posib i sefydliad sy'n cynnig rhaglenni achrededig.

3. Safbwyntiau gwirfoddolwyr: cyfle i glywed rhagor oddi wrth Lucy Bower a David Howells

Bydd David a Lucy yn rhannu rhagor o'u profiadau o wirfoddoli ac yn ateb eich cwestiynau.

Gyda'i gilydd, rydyn nhw am geisio canfod rhai o'r 'cynhwysion' pwysicaf sy'n helpu i sicrhau profiad gwirfoddoli cadarnhaol ac am ddechrau pwyso a mesur y goblygiadau i'r rheini sy'n gyfrifol am gynllunio neu reoli rhaglenni i wirfoddolwyr.

4. Gwirfoddoli a mynediad i waith: sut y gall gwirfoddoli helpu'r rheini sy'n ceisio gwaith

I'r rheini sy'n economaidd anweithgar ac sy'n ceisio gwaith, gall gwirfoddoli gynnig cam gwerthfawr ar hyd y ffordd. Mae cynlluniau diweddar, megis y rhaglen Porth Ymgysylltu yng Nghymru, yn ymdrechu i ddarparu 'llwybrau' mwy cydlynol oddi wrth anweithgarwch economaidd i waith cyflogedig.

Bydd esiamplau gwahanol o lwybrau unigol i waith yn cael eu hystyried, ynghyd â rôl y gwahanol asiantaethau partner sy'n gweithio yn y maes hwn a'r manteision y mae'n bosib eu cael drwy wirfoddoli.

Byddwn yn nodi'r hyn y mae ar reolwyr rhaglenni gwirfoddolwyr angen ei ystyried wrth gynnwys gwirfoddolwyr sy'n cael eu cymell yn y pendraw gan y nod o gael gwaith.

5. Mesur profiad gwirfoddolwyr

Gwyddom y gall gwirfoddolwyr ennill llawer iawn yn bersonol o'u gwaith gwirfoddoli; mae rhai'n dweud hynny wrthym, ac weithiau rydym yn eu gweld yn 'tyfu'. Ond a allwn fesur hynny?

Ceir cyfle i chi'n bersonol roi cynnig ar gyfrwng o'r fath, y raddfa Rickter, a chlywed sut y cafodd ei defnyddio i fonitro profiad gwirfoddolwyr.

Cyflwynir hefyd gyfryngau eraill i'w defnyddio, megis y pecyn cymorth i Asesu Effaith Gwirfoddoli.

6. Safbwyntiau gwirfoddolwyr: cyfle i glywed rhagor oddi wrth Angela James a Mel Morgan, ac oddi wrth Julie Bush, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Bydd Angela a Mel yn rhannu rhagor o'u profiad o wirfoddoli a gallant ateb eich cwestiynau. Bydd un aelod staff o Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn esbonio beth y mae gwirfoddoli drwy gynllun gwirfoddoli i weithwyr Llywodraeth y Cynulliad wedi ei olygu iddo ef.

Gyda'i gilydd, y nod fydd enwi rhai o'r 'cynhwysion' pwysicaf sy'n helpu i sicrhau profiad gwirfoddoli cadarnhaol gan ddechrau pwyso a mesur y goblygiadau i'r rheini sy'n gyfrifol am gynllunio neu reoli rhaglenni i wirfoddolwyr.

Mae'r wefan ddiwygiedig hon yn lwybr i gyfleoedd gwirfoddoli yn eich ardal chi yng Nghymru. Mae'r wefan yn eich cysylltu gyda'r rhwydwaith o ganolfannau gwirfoddoli led led Cymru, ac mae hefyd yn rhoi cyflwyniad i wirfoddoli a gwybodaeth am gynnwys gwirfoddolwyr yn eich mudiad.

www.gwirfoddolicymru.net